# COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU 3 A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DDYDD LLUN, 17 CHWEFROR 2025 AM 16:00

## Presennol

Y Cynghorydd JPD Blundell – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S J Bletsoe | C Davies | I Williams | MJ Williams |

## Presennol yn Rhithwir

| | | | |
|---|---|---|---|
| N Clarke | RJ Collins | P W Jenkins | W J Kendall |
| G Walter | J E Pratt | | |

## Ymddiheuriadau am Absenoldeb

MJ Kearn

## Gwahoddedigion:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Paul Davies | Aelod o'r Cabinet dros y Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol – y Cymunedau |
| Zak Shell | Pennaeth Gweithrediadau – Gwasanaethau Cymunedol |
| Stuart Baldwin | Rheolwr Ymateb i'r Newid yn yr Hinsawdd |

## Swyddogion

| | |
|---|---|
| Lucy Beard | Swyddog Craffu |
| Stephen Griffiths | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |

## Datganiad o Fuddiannau

Y Cynghorydd Jon-Paul Blundell – Personol – Eitem 4 – mae'r adroddiad yn cyfeirio at benderfyniadau a wnaed gan y Cabinet, rhai a wnaed pan oedd ef yn Aelod o'r Cabinet.

## 95. Cymeradwyo'r Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bwnc 3 dyddiedig 20 Ionawr 2025 fel cofnod gwir a chywir yn amodol ar y sylwadau a ganlyn:<br><br>**Pwysau Cyllidebol**<br><br>1. Roedd y penderfyniad ar ddarparu Gwasanaeth Gwastraff y Dyfodol wedi cael ei drafod yn llawn gan y Pwyllgor a'r rôl barhaus ydoedd monitro cynnydd y cynllun.<br>2. Cymerwyd y brydles ar gyfer Marchnad Pen-y-bont ar Ogwr gan yr awdurdod lleol rhagflaenol ym 1971, gan nad oedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi ei sefydlu tan 1996. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 17 Chwefror 2025 |

## 96. Ymateb i'r Newid yn yr Hinsawdd a Gweithgarwch Datgarboneiddio Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaeth gyda'r Aelod o'r Cabinet a Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor y sylwadau a'r argymhellion a ganlyn:<br><br>**Argymhellion**<br><br>1. Mynegodd y Pwyllgor bryder a **gofynnodd** am esboniad yn egluro pam na chafodd y Pwyllgor trawsbleidiol o Aelodau, y cytunwyd arno gan y Cabinet ar 30 Mehefin 2020 i oruchwylio'r Rhaglen Ymateb i Argyfwng yr Hinsawdd, ei sefydlu ac, yn lle hynny, bod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Bwnc 3 wedi cael y cylch gwaith ar gyfer y Newid yn yr Hinsawdd a Natur ac **argymhellodd** y dylid ystyried sefydlu'r Pwyllgor trawsbleidiol o Aelodau i'r dibenion a fwriadwyd.<br><br>2. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Strategaeth Garbon Sero Net Pen-y-bont ar Ogwr 2030 (y |

| | |
|---|---|
| | Strategaeth) yn cael ei hadolygu ac y câi adroddiad ei gyflwyno i gyfarfod dilynol o'r Pwyllgor yn rhoi manylion yr hyn a gyflawnwyd, i ba raddau yr oedd modd cyflawni'r uchelgeisiau a'r camau angenrheidiol i'w symud ymlaen.<br><br>Croesawodd y Pwyllgor yr adroddiad arfaethedig ond mynegodd ei siom ei bod yn ymddangos na fyddai rhai agweddau ar y cynllun yn gweithio ac felly nad aethpwyd â hwy ymhellach a'u pryder nad oedd yn ymddangos bod dim wedi ei gyflawni na chamau pendant wedi cael eu cymryd mewn perthynas â'r Strategaeth oedd eisoes wedi cyrraedd hanner ffordd. Felly **argymhellodd** y Pwyllgor y dylid sefydlu cynllun gweithredu i gynnwys manylion am y canlynol:<br><br>- Amserlenni;<br>- Yr amcanion a'r hyn a gyflawnwyd;<br>- Y ffordd y mae'r cyhoedd yn cael eu cynnwys ac yn cael gwrandawiad, gan gynnwys y modd y mae diddordeb yn cael ei ennyn yn y gymuned; a'r<br>- Posibilrwydd o ddiwrnod ymgysylltu blynyddol.<br><br>3. Bu'r Pwyllgor yn trafod effaith afonydd yn gorlifo yn ardaloedd y Cymoedd gan achosi erydiad ar lan yr afon a llifo i mewn i erddi, llinellau ffensys ac eiddo. Roedd yn cydnabod ei bod yn sefyllfa bryderus i'r rhai yr effeithiwyd arnynt ac **argymhellodd** fod y Cyngor yn cysylltu â Llywodraeth Cymru i ofyn am rywfaint o fesurau diogelu ar gyfer yr unigolion hynny a allai fod mewn perygl o lifogydd i'w cartrefi a'u heiddo yn y dyfodol.<br><br>4. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod y disgwyliadau oedd yn deillio o adroddiad Pwyllgor Hinsawdd y Senedd ar Atal a Gwrthdroi Colli Natur erbyn 2023 yn dal yn aneglur gan nad oedd LlC wedi ymateb eto i'r argymhellion oedd wedi eu cynnwys ynddo. **Argymhellodd** y Pwyllgor y dylid ysgrifennu llythyr at Lywodraeth Cymru yn gofyn pryd y gellid disgwyl ymateb, er mwyn cael dealltwriaeth o'r effaith a'r heriau posibl y gallai'r argymhellion hynny eu cael ar awdurdodau lleol.<br><br>5. **Gofynnodd** y Pwyllgor am ragor o fanylion/gwybodaeth am y sefyllfa genedlaethol, ar draws pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, yn nodi eu hymagwedd at y Newid yn yr Hinsawdd a Datgarboneiddio. Mynegodd y Pwyllgor ei bod yn bwysig bod Strategaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn cyd-fynd ag awdurdodau lleol eraill gan gydnabod nad yw dal carbon yn dod i ben wrth linellau terfyn. At hynny, bu'r Pwyllgor yn trafod ac yn holi gan fod cynlluniau datblygu strategol ar gyfer cynllunio eiddo ar raddfa fawr pam nad oedd cynllun cyfatebol ar gyfer Carbon Sero Net 2030 ac **argymhellodd** y dylid ystyried cynnwys hyn mewn adroddiad i'r Pwyllgor yn y dyfodol. |

<table>
<tr><td></td><td>Gwybodaeth Ychwanegol<br><br>6. Gofynnodd y Pwyllgor am gopi o Asesiad Risg y Newid yn yr Hinsawdd a gynhaliwyd mewn partneriaeth â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg (BGC) ac oedd yn tynnu sylw at 11 maes blaenoriaeth risg hinsawdd ar draws y BGC. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am wybodaeth ynglŷn â'r camau yr oedd y Bwrdd Iechyd yn eu cymryd i ymateb i'r cynllun gweithredu gan gynnwys unrhyw waith oedd yn cael ei wneud ar eu hadeiladau yn y Fwrdeistref Sirol i'w gwneud yn fwy ynni-effeithlon.<br><br>7. Gofynnodd y Pwyllgor am ragor o wybodaeth ynghylch Partneriaeth Natur Leol Pen-y-bont ar Ogwr i gynnwys manylion ei haelodaeth, pa mor aml yr oedd yn cyfarfod a beth oedd ei rhaglen er mwyn deall a ellid ei defnyddio fel offeryn ymgysylltu allweddol.<br><br><u>Cerbydau Trydan ac Isadeiledd</u><br><br>8. Bu'r aelodau'n trafod pwyntiau gwefru Cerbydau Trydan, faint o amser a gymerai i'w trwsio a phwy oedd yn gyfrifol am wneud hynny. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod iddi fod yn angenrheidiol i gyrff cyhoeddus arwain y ffordd o ran gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan, roedd galw ac angen cynyddol erbyn hyn am bwyntiau gwefru foltedd uwch. Felly, gofynnodd y Pwyllgor a ddylid ystyried bod y Cyngor yn gadael y farchnad ac yn hwyluso cyflenwi gan gwmnïau preifat.<br><br>9. Gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth ynghylch faint o'r £1.4 miliwn o gyllid ar gyfer cerbydau trydan ac isadeiledd a wariwyd ar isadeiledd, pam nad oedd y Cyngor yn derbyn incwm ohono ac ynglŷn â'r pwyntiau gwefru cyhoeddus a gomisiynwyd gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd ar dir y Cyngor:<br><br>- A oedd refeniw yn cael ei rannu?<br>- A oedd posibiliadau o gynhyrchu refeniw?<br>- A ymchwiliwyd i'r posibilrwydd o wario cyfalaf er mwyn cynhyrchu refeniw?</td></tr>
<tr><td>Dyddiad Gwneud y Penderfyniad</td><td>17 Chwefror 2025</td></tr>
</table>

## 97. Diweddariad ar y Flaenraglen Waith

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | <u>PENDERFYNWYD:</u> |

| | |
|---|---|
| | Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Flaenraglen Waith yn Atodiad A yn amodol ar gynnwys yr argymhellion isod, yn nodi'r Daflen Weithredu Monitro'r Argymhellion yn Atodiad B ac yn nodi yr adroddid am y Flaenraglen Waith fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor wrth gyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol:<br><br>Neuadd y Dref Maesteg<br><br>1. Gofynnodd y Pwyllgor am y canlynol:<br><br>a. Cynnwys y canlynol yng nghwmpas yr adroddiad:<br><br>- Y canlyniadau a'r risgiau posibl i'r awdurdod pe na bai'r Cyngor wedi gweithredu;<br>- Cymaint o fanylion â phosibl, yn dangos yr hyn a arweiniodd at y costau uwch; a<br>- Manylion gwerth cychwynnol y prosiect ac i ba raddau y cynyddodd y gwerth, ar ba gam a'r rhesymau pam.<br><br>b. Gwahodd Arweinyddion presennol a blaenorol y Cyngor i fod yn bresennol yn y cyfarfod y mae'r adroddiad wedi'i amserlennu ar ei gyfer.<br><br>c. Ystyried a ellid cynnal cyfarfod y Pwyllgor y mae'r adroddiad wedi'i amserlennu ar ei gyfer yn Neuadd y Dref Maesteg, yn amodol ar hygyrchedd a'r gallu i gynnal y cyfarfod yn hybrid. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 17 Chwefror 2025 |

## 98. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Dim. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 17 Chwefror 2025 |

I wylio rhagor o'r ddadl ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon.

Daeth y cyfarfod i ben am 6:46p.m.